# Sir y Fflint **Ddigidol**

## Cefnogi Sir y Fflint mewn Byd Digidol



2021 - 2026

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

# Cynnwys


Rhagarweiniad .................................... 3

Yr hyn sydd wedi newid? ...................... 4

Y cyd-destun strategol ehangach ......... 5

Strategaeth Ddigidol i Gymru ................ 5

Datganiad Digidol Lleol ......................... 6

Safonau Digidol ................................... 7

Cysylltiadau â Strategaethau Eraill ........ 8

Cenedlaethau’r Dyfodol ........................ 9

Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol 10

Sir y Fflint Digidol: Y Weledigaeth .......... 11

Cwsmeriaid Digidol ............................... 12

Gweithlu Digidol .................................... 13

Busnes Digidol a Chysylltedd ................ 14

Partneriaethau Digidol ........................... 15

Rheoli Gwybodaeth a Data ................... 16

Cyflawni Digidol .................................... 18

Cynhwysiant Digidol ............................. 19

Dysgu Digidol a Diwylliant ..................... 20

Trefniadau Llywodraethu ....................... 21




# Rhagarweiniad

**Mabwysiadodd y Cyngor "Sir y Fflint Digidol" yn 2017. Ers hynny mae llawer wedi newid yn y Cyngor ac yn y byd ehangach. Bryd hynny roedd y strategaeth y nodi newid mewn cyfeiriad a pherchnogaeth: o ddogfen yn ymwneud â chynlluniau'r Gwasanaethau TG yn unig i ddatganiad ehangach ynghylch uchelgeisiau'r Cyngor cyfan yn yr arena ddigidol. Wrth i ddealltwriaeth y Cyngor dyfu ynghylch yr hyn sy'n bosibl yn ddigidol, felly hefyd mae'r parodrwydd i dderbyn gwasanaethau digidol a'r galw amdanynt wedi tyfu, yn enwedig yn sgil y gwahanol lefelau o gyfnodau clo a fu mewn ymateb i'r pandemig Covid-19. Y mae yn yn awr yn adeg priodol i adolygu a diwygio'r strategaeth yng ngoleuni'r newidiadau hyn a'n profiadau ni.**

Yn ystod y pedair blynedd ers mabwysiadu'r fersiwn cyntaf o Sir y Fflint Digidol mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarn o ran cyflawni'r amcanion a'r uchelgeisiau yn y ddogfen honno. Er enghraifft, rydym wedi:

- Diweddaru ein gwefan a datblygu ein System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) ein hunain sydd wedi arwain at brosesu bron i 200,000 o ffurflenni electronig gan gwsmeriaid dros y 3 blynedd ddiwethaf - llawer ohonynt wedi'u hintegreiddio'n uniongyrchol i'n systemau busnes gan roi profiad digidol o ddechrau'r broses i'w diwedd.

- Datblygu cyfrif cwsmeriaid er mwyn galluogi cwsmeriaid i gael mynediad diogel at wasanaethau sy'n ymwneud â nhw'n bersonol. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys derbyniadau i'r ysgol, ceisiadau cynllunio, cynlluniau casglu gwastraff gardd ac amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer tenantiaid y cyngor. Hyd yn hyn mae dros 17,500 o gwsmeriaid wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn.

- Sefydlu seilweithiau modern a chyfredol mewn ysgolion wedi'u halinio â'r safonau digidol cenedlaethol cytunedig fel rhan o raglen Hwb Llywodraeth Cymru, gan sicrhau eu bod yn diwallu anghenion yr ysgolion ac yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm.

Mae ein partneriaid a chyrff sector cyhoeddus eraill wedi gwneud cynnydd o ran gwireddu eu huchelgeisiau eu hunain sy'n effeithio ar neu'n cefnogi ein huchelgeisiau digidol ni, er enghraifft mae [Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru] wedi llwyddo yn eu cais am grant gan y llywodraeth i wella cyflymder cysylltiad band eang yn y rhanbarth.

Cyflymodd ein darpariaeth o wasanaethau digidol yn ystod ac o ganlyniad i'r cyfyngiadau corfforol a bennwyd i gyfyngu ar ledaeniad y pandemig coronafeirws. Gyda gweithlu a oedd eisoes yn gallu gweithio mewn modd hyblyg, roeddem mewn sefyllfa dda i'n gweithwyr weithio o gartref ble bynnag bosibl. Cafodd y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu cyfarfodydd pwyllgor y Cyngor a'r Cabinet eu diwygio'n gyflym ac mae'r holl gyfarfodydd erbyn hyn yn cael eu cynnal yn rhithiol, gyda hynny yn ei dro wedi hwyluso mynediad i gyfarfodydd nad oedd fawr neb yn eu gweld cynt er eu bod ar agor i'r cyhoedd. Mae'r defnydd eang o gynadledda fideo, i gyd-fynd â'r technolegau hyblyg a oedd eisoes yn bodoli, hefyd wedi dod â manteision sylweddol yn ei sgil o ran lleihau'r angen i deithio a'r allyriadau carbon cysylltiedig a hefyd wedi gwella cynhyrchiant a chydbwysedd bywyd a gwaith i weithwyr. Mae hyn hefyd wedi ategu ymhellach raglen rhesymoli asedau'r Cyngor.

Mae'r galw am wasanaethau digidol wedi cynyddu o fewn y Cyngor ac ymysg y rhai hynny sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Mae ein profiadau o'r hyn sydd erbyn hyn yn bosibl ac yn dderbyniol wedi cynyddu ein huchelgais ac rydym wedi ailedrych ar ei uchelgeisiau hirdymor yng ngoleuni'r profiadau hynny, wedi clustnodi adnoddau ychwanegol i gefnogi darpariaeth y cynllun gweithredu ac yn cydnabod y bydd rhagor o adnoddau yn hollbwysig o ran llwyddiant y strategaeth wrth symud ymlaen.

Mae'r cyd-destun strategol ar gyfer technolegau digidol wedi datblygu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei strategaeth ddigidol a'i safonau digidol ei hun sy'n nodi'r hyn a ddisgwylir gan lywodraeth leol o ran trawsnewid gwasanaethau'n ddigidol. Rydym wedi cynnwys y safonau hynny yn y ddogfen hon ac wedi ymrwymo i'r Datganiad Digidol Lleol i sicrhau bod y Cyngor yn cadw i fyny â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

Mae cyd-destun polisi'r Cyngor ei hun hefyd wedi newid. Mae Cynllun y Cyngor wedi rhoi pwyslais erioed ar fynd i'r afael ag effeithiau tlodi ac allgáu, ond yng nghynllun 2021/22 cafodd y thema benodol o daclo tlodi digidol ei chynnwys i sicrhau nad oes unrhyw un yn cael eu hallgau o ganlyniad i ddiffyg sgiliau neu ddiffyg mynediad at dechnoleg digidol. Mae hyn wedi'i gynnwys fel thema newydd o fewn y strategaeth ddigidol er mwyn sicrhau bod allgáu digidol yn rhywbeth sy'n cael sylw ac ystyriaeth ym mhob prosiect yr ydym yn ymgymryd ag o.




# Rhagarweiniad (parhad...)

## Yr hyn sydd wedi newid yn y strategaeth ddiweddaredig?

Rydym wedi:

- ynnu'r holl ddyheadau a cherrig milltir sydd eisoes wedi'u cyflawni allan o'r strategaeth ac wedi diweddaru ei uchelgeisiau a'i amcanion hirdymor
- Gallu cynnwys am y tro cyntaf gynllun gweithredu clir yn dangos yr amserlen ar gyfer darpariaeth y prosiect
- Dangos sut y mae'r Strategaeth Ddigidol yn cyflawni'r amcanion a'r ffyrdd o weithio sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Gwahanu rhai themâu i roi mwy o eglurder iddynt ac wedi ail-fframio/ail-ffocysu ei amcanion o ran addysg, dysgu, diwylliant a'r celfyddydau
- Nodi safonau digidol clir y mae'n rhaid i bob prosiect eu diwallu os yw'r Gwasanaethau TG am eu cefnogi neu eu darparu



# Strategaeth Ddigidol i Gymru

Ers y fersiwn cyntaf o Sir y Fflint Digidol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Strategaeth Ddigidol i Gymru sy'n nodi'r weledigaeth ar gyfer safon gyson o wasanaethau digidol ar gyfer y cyhoedd. Mae'n cynnwys y 6 chenhadaeth isod sy'n amlwg yn gorgyffwrdd ag amcanion y strategaeth ddiweddaredig hon:

**Cenhadaeth 1: Gwasanaethau Digidol**
Darparu a moderneiddio gwasanaethau fel eu bod yn cael eu dylunio ar sail anghenion y defnyddiwr ac yn syml, yn ddiogel ac yn gyfleus

**Cenhadaeth 2: Cynhwysiant Digidol**
Rhoi'r cymhelliant, y mynediad, y sgiliau a'r hyder i bobl ymgysylltu â byd cynyddol ddigidol, yn seiliedig ar eu hanghenion

**Cenhadaeth 3: Sgiliau Digidol**
Creu gweithlu sydd â'r sgiliau, y gallu a'r hyder digidol i ragori yn y gweithle ac mewn bywyd bob dydd

**Cenhadaeth 4: Yr Economi Ddigidol**
Sbarduno ffyniant a chydnerthedd economaidd drwy groesawu a manteisio ar arloesedd digidol

**Cenhadaeth 5: cysylltedd digidol**
Seilwaith cyflym a dibynadwy i gynnal gwasanaethau

**Cenhadaeth 6: Data a Chydweithredu**
Bydd gwasanaethau'n well yn sgil cydweithio, gyda data a gwybodaeth yn cael eu defnyddio a'u rhannu

# Datganiad Digidol Lleol

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi creu gweledigaeth ar gyfer darpariaeth gwasanaethau digidol: Datganiad Digidol Lleol. Mae llofnodi'r datganiad yn ddatganiad o fwriad i fod ag ymdriniaeth gyffredin o ran darparu gwasanaethau digidol a fydd yn hwyluso ac yn cynyddu cydweithio a chysylltiadau rhwng gwahanol gyrff cyhoeddus.



**Mae 5 egwyddor y Datganiad Digidol Lleol wedi'u nodi isod a bydd Sir y Fflint yn eu mabwysiadu fel y dull o weithio a ffefrir i gyflawni uchelgeisiau a phrosiectau Sir y Fflint Digidol.**

1. Byddwn yn mynd ymhellach fyth i ail-ddylunio ein gwasanaethau o amgylch anghenion y bobl sy'n eu defnyddio. Mae hyn yn golygu parhau i flaenoriaethu anghenion dinasyddion a defnyddwyr o flaen seilos proffesiynol, sefydliadol a thechnoleg.

2. Byddwn yn 'trwsio ein plymio' er mwyn torri ein dibyniaeth ar dechnoleg anhyblyg a drud nad yw'n cyd-gysylltu'n effeithiol. Mae hyn yn golygu mynnu ar flociau adeiladu modiwlaidd ar gyfer y TG yr ydym yn dibynnu arni i roi strwythur cyffredin i'r data yr ydym yn ei greu.

3. Byddwn yn dylunio ffyrdd diogel a defnyddiol o rannu gwybodaeth er mwyn meithrin ffydd ein partneriaid a dinasyddion ynom, i gefnogi'n well aelodau mwyaf agored i niwed ein cymunedau ac i dargedu ein hadnoddau'n fwy effeithiol.

4. Byddwn yn dangos arweinyddiaeth ddigidol, yn creu'r amodau a fydd yn caniatáu gwir weddnewid sefydliadol ac yn herio'r rhai yr ydym yn gweithio â nhw i groesawu a manteisio ar y Datganiad Digidol Lleol hwn.

5. Byddwn yn ymwreiddio diwylliant agored sy'n gwerthfawrogi, yn cymell ac yn disgwyl dulliau digidol o weithio gan bob aelod o'n gweithlu. Mae hyn yn golygu gweithio'n agored ble bynnag bosibl, rhannu ein cynlluniau a'n profiadau, cydweithio â sefydliadau eraill ac ailddefnyddio arfer da.

# Safonau Digidol

Mae safonau digidol cenedlaethol yn darparu cyfres o egwyddorion dylunio sylfaenol ar gyfer gwasanaethau digidol, gan bennu meini prawf y mae'n rhaid i bob gwasanaeth digidol a ddatblygir gan wasanaethau cyhoeddus eu diwallu.



**Mae Safonau Gwasanaeth Digidol Cymru "yn dwyn ysbrydoliaeth o safonau digidol eraill o amgylch y byd" ac yn targedu 14 o feini prawf allweddol ar draws 3 thema i wireddu eu gweledigaeth:**

**1.** Bodloni anghenion defnyddwyr
**2.** Creu timau digidol da
**3.** Defnyddio'r dechnoleg Iawn

Mae'r Alban wedi cyhoeddi ei Digital First Service Standard, sy'n nodi 22 o wahanol feini prawf y dylai pob prosiect eu diwallu i sicrhau eu bod yn cyfrannu at y weledigaeth a grëwyd gan Lywodraeth yr Alban. Yr hyn a ddatgenir yw:

**"Mae i'r safon 3 thema:**

- Anghenion y defnyddiwr – canolbwyntio ar yr hyn y mae eich defnyddwyr eisiau ei wneud yn hytrach nag ar amcanion y sefydliad neu fecanwaith darparu eich gwasanaeth.
- technoleg – sut yr ydych wedi adeiladu eich gwasanaeth
- gallu a chapasiti busnes - bod â'r tîm iawn gyda digon o amser i gynnal y gwasanaeth.

Nod y safon yw sicrhau bod gwasanaethau yn yr Alban yn gwella'n gyson ac mai defnyddwyr yw'r canolbwynt bob amser."

Gan ddysgu o'r safonau cenedlaethol hyn, gweledigaeth gyffredinol y Cyngor ar gyfer ei wasanaethau digidol yw y byddant yn:

1. Canolbwyntio ar y cwsmer, gan alluogi mynediad hawdd at wybodaeth a gweithrediadau gwasanaeth ar-lein.
2. Caniatáu i weithwyr wneud eu gwaith yn unrhyw leoliad, gan roi mynediad iddynt at y wybodaeth a'r offer maent eu hangen yn ddiogel.
3. Trosi tasgau â llaw yn rhai awtomatig pan fo'n bosibl.
4. Lletya yn y cwmwl i leddfu ein dibyniaeth ar leoliadau daearyddol penodol (sef swyddfeydd y Cyngor).

Mae Sir y Fflint Digidol yn cynnwys 12 o bwyntiau aeddfedrwydd allweddol i'w hystyried sy'n sicrhau y bydd unrhyw brosiect yr ymgymerir ag o o fewn y Cyngor yn helpu i wireddu nodau ac amcanion y polisi cyffredinol. Mae unrhyw brosiect sy'n methu â bodloni'r safonau hyn yn annhebygol o allu'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth gyffredinol ac ni fydd yn cael ei ddatblygu.

Y safonau yw:

**Defnyddioldeb a Hygyrchedd**

1. Cynnwys y wefan a gwasanaethau ar-lein
2. Cysylltiad â 'Fy Nghyfrif' Sir y Fflint
3. Galluoedd 'pob-sianel'
4. Taliadau ar-lein
5. Archebu ar-lein
6. eLofnodion

**Data**

7. Adrodd - Gwybodaeth Rheoli a Gwybodaeth Busnes
8. Cysylltiadau strategaeth data
9. Rheoli Dogfennau

**Technology**

10. Gofynion lletya - disgwylir y bydd meddalwedd yn cael ei letya yn y cwmwl
11. Gofynion integreiddio
12. Gweithio Ystwyth

# Cysylltiadau â Strategaethau Eraill

Mae'r cysylltiadau â, a'r rhyngddibyniaeth ar strategaethau eraill fel a ganlyn:

- **Strategaeth AD** – mae Sir y Fflint Digidol yn cynnwys thema benodol ar ddarparu prosesau digidol ar gyfer ei weithwyr  Yn ei dro mae'n dibynnu ar ddatblygu gweithwyr, yn unol â'r Strategaeth AD, i feithrin ac i recriwtio sgiliau digidol yn y gweithlu

- **Strategaeth Cwsmeriaid** – mae'r Strategaeth Cwsmeriaid yn troi o amgylch darparu gwasanaethau effeithiol ar y pwynt cyswllt cyntaf a galluogi cwsmeriaid i hunanwerthuso ble bynnag bosib.  Mae integreiddiad agos rhwng y gwasanaethau digidol a ddarperir ar y wefan a meddalwedd Rheoli Cysylltiad Cwsmeriaid (CRM) y Cyngor ei hun yn galluogi gweithwyr yn y Ganolfan Gyswllt i gefnogi cwsmeriaid os oes angen

- **Strategaeth Amgylcheddol** – mae'r Cyngor wedi gosod y nod o fod yn garbon niwtral erbyn 2030.  Mae gwasanaethau digidol yn dileu'r angen i swyddogion/preswylwyr deithio i ddarparu/derbyn gwasanaethau a thrwy hynny'n lleihau ôl-troed carbon y Cyngor.  Mae i'r defnydd cynyddol o ddata ei gost ei hun o ran carbon sydd yn ei dro yn cael ei liniaru drwy brynu, neu gynhyrchu ein hynni gwyrdd ein hunain

**Addysg**
Mewn partneriaeth ag ysgolion, rydym yn darparu ystod o wasanaethau o ran EdTech (Technoleg Addysg) drwy bedwar prif dîm: Cyfathrebu a Rhwydweithio, Gweinyddwyr a Storio, Gwybodaeth Rheoli a Chymorth i Fusnesau.

Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys:
- cyngor strategol, arweiniad, cefnogaeth a hyfforddiant
- cymorth technegol ar lefel uchel, yn cynnwys:
- rheoli a chefnogi isadeiledd cyfathrebu  a rhwydweithio electronig diogel
- cysylltedd â Phrosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus, y Rhyngrwyd a Hwb
- darparu hyfforddiant, cefnogaeth a datrys problemau wrth ddefnyddio caledwedd a meddalwedd
- trosglwyddo sgiliau/mentora i staff technegol ysgolion i'w galluogi i reoli rhwydweithiau a dyfeisiau ysgolion. Gall hyn fod ar y safle, drwy gysylltiad o bell neu ddogfennau technegol
- swyddogaethau cefnogi busnes yn cynnwys hwyluso datblygiad strategol, adnoddau cyfeirio, caffael, rheoli contractau fframwaith i wasanaethau allanol, monitro ac adolygu darpariaeth gwasanaeth yn erbyn set o dargedau perfformiad y cytunwyd arnynt.

Mae'r gefnogaeth a'r cyngor sydd eu hangen yn cael ei nodi yn y dogfennau canlynol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gydag ysgolion:
1. Arweiniad ar gyfer Defnydd Strategol  a Gweithredol o Dechnolegau Digidol mewn Ysgolion
2. Strategaeth ar gyfer Gweithredu a Chefnogi Technolegau Digidol mewn Ysgolion

Mae Sir y Fflint Digidol yn effeithio ar holl waith y Cyngor ac os yw am lwyddo mae angen iddo ddylanwadu ar, a chael ei ddylanwadu arno gan strategaethau corfforaethol eraill.



# Cenedlaethau'r Dyfodol

Bydd y strategaeth hon yn cyfrannu at gyflawniad y nodau llesiant Gall parodrwydd i wneud y defnydd eithaf o arloesedd digidol a gwella mynediad at fand eang cyflymach arwain at fwy o gyfleoedd economaidd felly mae thema benodol i'r perwyl hwnnw wedi'i chynnwys yn y strategaeth gyda'r nod o greu cymdeithas fwy ffyniannus a gwydn. Bydd rhoi'r sgiliau digidol angenrheidiol i bobl a dylunio gwasanaethau o amgylch y defnyddiwr hefyd yn gwella cydlyniad cymdeithasol, yn creu cymdeithas iachach a mwy cyfartal gyda chymunedau wedi'u cysylltu'n dda ac yn cyfrannu at ffyniant y Gymraeg.

**Drwy gefnogi gweithio o bell, dylunio gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol, defnyddio data'n ddoeth a moderneiddio'r dechnoleg yr ydym yn ei defnyddio, gallwn gynnal ein huchelgais i leihau'r defnydd o garbon (gan nodi y gallwn drwy brynu, neu hyn yn oed gynhyrchu ein 'hynni gwyrdd' ein hunain wrthbwyso'r gost o ran carbon a fydd yn codi yn sgil y defnydd cynyddol o ddata).**

Bydd gwireddu gwir drawsnewid digidol mewn gwasanaethau cyhoeddus yn rhoi cyfle i gefnogi'r ffyrdd o weithio a ddisgrifir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae gwasanaethau digidol yn cyfuno ac yn integreiddio adrannau ar gyfer preswylwyr fel y gallant wneud a chael ymateb i'w cais am wasanaeth mewn un broses ddi-dor. Mae ymgysylltiad da yn cefnogi dyluniad gwasanaethau defnyddwyr sy'n atal aneffeithlonrwydd a phrofiadau anghyson i'r dinesydd. Bydd dylunio gwasanaethau mewn modd iteraidd, hyblyg sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr yn sicrhau eu bod wedi'u dylunio ar gyfer yr hirdymor.

Dyma rai enghreifftiau o sut y mae'r strategaeth yn symud gofynion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu blaen:

**Hirdymor**
Gan gydnabod fod ein poblogaeth yn heneiddio ac yn mynd yn fwy amrywiol mae gwasanaethau digidol yn golygu y gellir rhoi mwy o sylw i gefnogi'r rhai hynny sydd fwyaf o angen cefnogaeth. Gan gydnabod bygythiad newid yn yr hinsawdd, arferion gweithio mwy hyblyg, bydd arferion gweithio mwy hyblyg yn golygu llai o siwrneiau'n effeithio ar allyriadau CO2 ac ansawdd yr aer.

**Ataliol**
Gall mynediad rhwydd at wybodaeth a'r gallu i reoli tasgau dydd i ddydd yn ddigidol helpu pobl i wneud mwy drostynt eu hunain a'u hatal rhag colli annibyniaeth.

**Ymgysylltu**
Mae canlyniadau ymgynghoriadau wedi ategu'r strategaeth a bydd rhaglenni dysgu sy'n seiliedig ar adborth gan ddinasyddion a defnyddwyr yn hysbysu datblygiadau'r dyfodol.

**Integreiddio**
Bydd gwell gwasanaethau digidol yn dod a manteision i bob un o'r nodau llesiant e.e. Cymru gyfartal. Gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu gwasanaethau digidol sy'n galluogi integreiddiad Iechyd a Gofal Cymdeithasol e.e. Un Pwynt Mynediad (SPoA).

**Cydweithio**
Gweithio gyda'r ysgolion i sicrhau bod plant yn ennill y sgiliau angenrheidiol i ffynnu mewn byd digidol. Gweithio gyda phartneriaid i helpu i feithrin sgiliau yn y gymuned ac i sicrhau mynediad at wasanaethau digidol.

**Cymru lewyrchus**
Gwella'r seilwaith lleol i gefnogi busnesau sy'n datblygu a helpu pobl leol i ennill y sgiliau perthnasol.

**Cymru gydnerth**
Newid arferion gweithio a datblygu sgiliau a fydd yn galluogi darpariaeth gwasanaethau mwy gwydn ac yn creu cymunedau mwy cydnerth wrth i'r boblogaeth a'r hinsawdd newid yn yr hirdymor.

**Cymru iachach**
Mynediad amserol at wybodaeth i sicrhau y gellir darparu cymorth yn ddi-oed gan atal dirywiad pellach, gyda darpariaeth gwybodaeth 'amser real' i gefnogi hyn.

**Cymru sy'n fwy cyfartal**
Gwasanaethau hyblyg sy'n ymateb i anghenion y rhai mwyaf diamddiffyn.

**Cymru o gymunedau cydlynol**
Cefnogi gwell cysylltiad â'r rhyngrwyd fel bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd ac yn ddibynadwy gan sicrhau bod pob cymuned wedi'i chysylltu'n dda, yn cael at yr holl wybodaeth angenrheidiol ac yn gallu chwarae ei rhan yn yr ardal leol.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
Sicrhau bod yr holl wasanaethau a gwybodaeth yn cael eu darparu'n ddwyieithog.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**
Mae mwy o wasanaethau digidol yn lleihau'r angen am deithio ac am adnoddau megis tanwydd a phapur, gan leihau allyriadau CO2 a'r defnydd o adnoddau.

# Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall anallu i gael mynediad at wasanaethau digidol effeithio'n anghymesur ar bobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, gan ychwanegu at neu hyd yn oed waethygu'r anfanteision y maent yn eu hwynebu.  Nod y strategaeth ddiwygiedig hon yw mynd i'r afael â'r materion hyn drwy bob thema ac mae hefyd yn cynnwys thema sy'n anelu'n benodol at dargedu'r heriau hyn.




# Sir y Fflint Digidol: Y Weledigaeth

**Mae ein strategaeth ddigidol yn nodi sut y byddwn yn croesawu'r cyfleoedd y mae technolegau digidol, arloesedd a gwybodaeth yn eu cynnig i ni i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau cyhoeddus modern, effeithlon.**

**Byddwn yn gwneud hyn drwy fabwysiadu'r egwyddorion canlynol:**

- Ddefnyddio technoleg i gynnig mwy o hyblygrwydd i gwsmeriaid o ran pryd a sut y maent yn cael mynediad at ein gwasanaethau
- Sicrhau bod ein cwsmeriaid yn gallu cael mynediad at, a bod ganddynt y sgiliau a'r hyder i ymgysylltu â byd cynyddol ddigidol, yn seiliedig ar eu hanghenion – neb yn cael eu gadael ar ôl
- Darparu a hyrwyddo gwasanaethau digidol hygyrch a chynhwysol sy'n syml, yn ddiogel ac yn gyfleus ac yn galluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ar sail dydd i ddydd
- Creu gweithlu sy'n effeithlon ac yn wybodus ac sy'n gallu rhyngweithio'n hyderus ac yn effeithiol mewn byd digidol
- Byddwn yn dangos arweinyddiaeth ddigidol, yn creu'r amodau a fydd yn caniatáu gwir weddnewid sefydliadol ac yn herio'r rhai yr ydym yn gweithio â nhw i groesawu a manteisio ar y diwylliant hwn
- Gweithio gyda, a chefnogi ein busnesau i wneud y mwyaf o gyfleoedd a gynigir gan dechnoleg ddigidol a chynigion arloesol
- Defnyddio technoleg ddigidol i weithio a chydweithio â'n partneriaid yn effeithlon ac yn ddiogel, gan gynnwys rhannu a defnyddio data yn effeithiol
- Trin gwybodaeth fel ased corfforaethol allweddol gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio, yn gywir, yn berthnasol ac yn ddiogel fel y gallwn ei ddefnyddio i ddylunio a darparu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon
- Darparu seilwaith digidol diogel, dibynadwy, gwydn a chost effeithiol sy'n ymateb i anghenion y cyngor a'i gwsmeriaid



# Cwsmeriaid Digidol

*"Grymuso cwsmeriaid i ddefnyddio sianelau digidol i gael mynediad at wybodaeth, ymgysylltu a chwblhau trafodion."*



**Egwyddorion:**

- Bydd ein gwasanaethau'n fodern, yn effeithiol ac yn llyfn i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid
- Bydd gwasanaethau digidol yn syml, yn ddiogel ac yn gyfleus
- Bydd ein trigolion yn gallu cael mynediad at wasanaethau o safon uchel yn Gymraeg a Saesneg gan y byddant yn cael eu dylunio'n ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf
- Bydd ein gwasanaethau'n cynnig profiad defnyddiwr a dyluniad cyson
- Bydd gwasanaethau y mae modd eu cynnig ar-lein ar gael ar-lein a bydd sianelau eraill ar gael ble mae eu hangen
- Bydd pobl yn dewis defnyddio gwasanaethau digidol a bydd rhyngweithio hunanwasanaeth rhwng cwsmeriaid a gwasanaethau'n cynyddu
- Ni fydd unrhyw un yn cael ei adael ar ôl wrth i ni fanteisio hyd yr eithaf ar wasanaethau digidol a chadw cynhwysiant digidol wrth wraidd popeth a wnawn

**Gweithredu ar Lefel Uchel i Gefnogi Darpariaeth:**

| Rhif | Cam Gweithredu |
|---|---|
| 1 | Parhau i ddatblygu gwasanaethau digidol modern, effeithiol a diogel |
| 2 | Sicrhau profiad defnyddiwr dwyieithog mewn dyluniad a darpariaeth gwasanaeth |
| 3 | Moderneiddio cyfleusterau talu ar-lein |
| 4 | Creu canolbwynt digidol ar gyfer gwybodaeth, adnoddau a chefnogaeth i helpu pobl i ddefnyddio gwasanaethau digidol |
| 5 | Datblygu'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol fel cyfrwng i gefnogi darpariaeth gwasanaethau |
| 6 | Ni fydd unrhyw un yn cael ei adael ar ôl wrth i ni fanteisio hyd yr eithaf ar wasanaethau digidol a chadw cynhwysiant digidol wrth wraidd popeth a wnawn |

# Gweithlu Digidol

**Egwyddorion**:

- Byddwn yn gofalu bod gan ein gweithwyr yr offer a'r sgiliau digidol sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon
- Byddwn yn cefnogi newidiadau mewn arferion gweithio sy'n galluogi gweithwyr i weithio mewn ffyrdd mwy tryloyw a hyblyg
- Byddwn yn uno ein cyfathrebiadau ar-lein a heb fod ar lein drwy gadw gweithwyr mewn cysylltiad drwy eu dyfeisiadau symudol gan ddarparu mynediad ar unrhyw adeg ac o unrhyw le at declynnau busnes a gwybodaeth
- Parhau i gefnogi amgylcheddau gwaith rithiol sy'n galluogi gweithwyr i aros mewn cysylltiad â gweithleoedd rhithiol wrth gydbwyso anghenion busnes a risgiau gweithredol
- Byddwn yn helpu i leihau gwariant a gwella cynhyrchiant drwy roi'r arfau iawn a'r wybodaeth gywir i weithwyr pan fo'u hangen arnynt
- Cefnogi gweithwyr i fabwysiadu newid digidol
- Gofalu ein bod yn gallu dylunio prosesau a gwasanaethau gwell, trawsnewid a chyflymu'r symudiad tuag at gyflawni digidol os yw hyn yn rhoi gwell profiad i'n preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr

*"Rhoi'r sgiliau, y gallu a'r hyder digidol angenrheidiol i'n gweithlu allu darparu gwasanaethau gwell a symlach."*



**Gweithredu ar Lefel Uchel i Gefnogi Darpariaeth:**

| Rhif | Cam Gweithredu |
|---|---|
| 1 | Parhau i ddatblygu a rhoi technolegau hyblyg a symudol ar waith er mwyn galluogi gweithwyr i gael mynediad at systemau busnes a gwybodaeth o unrhyw leoliad |
| 2 | Datblygu ein gallu i weithio'n symudol i gefnogi darpariaeth gwasanaeth |
| 3 | Sefydlu technolegau cydweithio a rheoli dogfennau |
| 4 | Hyfforddiant priodol ar gyfer y gweithlu i gefnogi'r defnydd o dechnolegau a systemau digidol |
| 5 | Ymgymryd ag Asesiad Sgiliau Gweithlu Digidol ar gyfer pob gweithiwr a gweithwyr newydd |
| 6 | Ymestyn y ddarpariaeth ddi-wifr yn adeiladau'r Cyngor |
| 7 | Datblygu modiwlau e-ddysgu i gefnogi datblygiad y gweithlu yn y defnydd o dechnolegau cyfredol a newydd ac i hyrwyddo cydymffurfiaeth â deddfwriaeth rheoli gwybodaeth |
| 8 | Sefydlu mewnrwyd newydd sbon a fydd yn galluogi mynediad gweithlu cyfan |
| 9 | Parhau i ddatblygu a sefydlu systemau hunanwasanaeth ar draws y gweithlu ac mewn ysgolion e.e. AD a Chyflogau |

# Busnes Digidol a Chysylltedd

*"Gweithio gyda a chefnogi busnesau i wneud y mwyaf o bob cyfle y y bydd technoleg ddigidol ac arloesedd yn eu cynnig."*



**Egwyddorion:**

- Byddwn yn hyrwyddo ac yn darparu prosiectau sy'n ymestyn cwmpas band eang a theclynnau symudol, gan alluogi:
  - Busnesau i gael mynediad at farchnadoedd newydd
  - Trigolion i gael mynediad at gyflogaeth, addysg a gwasanaethau
- Byddwn yn hyrwyddo ac yn darparu prosiectau sy'n hwyluso'r defnydd o'r Rhyngrwyd Pethau gan wasanaethau cyhoeddus a busnesau

**Gweithredu ar Lefel Uchel i Gefnogi Darpariaeth:**

| Rhif | Cam Gweithredu |
|---|---|
| 1 | Cyfrannu at Fargen Twf Gogledd Cymru i greu seilwaith 5G ar hyd coridorau cludiant strategol a safleoedd cyflogaeth allweddol |
| 2 | Cyfrannu at ddatblygiad fframwaith polisi symlach ar gyfer Gogledd Cymru a fydd yn ei gwneud yn fwy cost effeithiol i gwmnïau seilwaith telegyfathrebu fuddsoddi |
| 3 | Cyfrannu tuag at brosiect Bargen Twf Gogledd Cymru i ehangu cwmpas band eang yng nghefn gwlad |
| 4 | Cwblhau'r gwaith o osod cysylltiad ffeibr i adeiladau cyhoeddus drwy'r prosiect Rhwydwaith Ffeibr Lleol Llawn |
| 5 | Darparu swyddogion i gefnogi aelwydydd gwledig i ddod o hyd i atebion i broblemau cysylltedd a hyrwyddo prosiectau band eang cymunedol |
| 6 | Datblygu prosiectau i wella cysyllted mewn cyfleusterau cymunedol |
| 7 | Datblygu seilwaith monitro yng nghanol trefi i ddarparu data i hysbysu rheolaeth a buddsoddiad |
| 8 | Llunio achosion defnydd o'r Rhyngrwyd Pethau ar gyfer y sector cyhoeddus a busnesau |

# Partneriaethau Digidol

*“Bydd technoleg ddigidol yn galluogi pobl a sefydliadau i weithio gyda’i gilydd i ddylunio a darparu gwell gwasanaethau.”*



**Egwyddorion:**

- Bydd technoleg ddigidol yn galluogi partneriaid i ddarparu gwasanaethau a deilliannau gwell a mwy di-dor
- Bydd mathau priodol o ddata a gwybodaeth yn cael eu rhannu a’u defnyddio gan bartneriaid i ddatblygu a gwella gwasanaethau
- Bydd ffyrdd agored ac ystwyth o weithio ar draws partneriaethau gan olygu y bydd modd cyd-leoli gwasanaethau
- Byddwn yn gwneud y defnydd eithaf o dechnolegau sy’n cefnogi ac yn galluogi darparu gwasanaethau ar y cyd, fel y cwmwl a systemau agored
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chaffael technoleg sydd eisoes wedi’i sefydlu gan sicrhau’r gwerth gorau am arian
- Byddwn yn archwilio cyfleoedd ar gyfer modelau darparu gwasanaeth amgen gyda sefydliadau sector cyhoeddus, preifat a thrydydd sector eraill

**Gweithredu ar Lefel Uchel i Gefnogi Darpariaeth:**


| Rhif | Cam Gweithredu |
|---|---|
| 1 | Sefydlu cyfres o ‘ymrwymiadau digidol’ gyda’n partneriaid i alinio ein cyfeiriad strategol, cyfraddau amser a chapasiti gan wella deilliannau<br>Bydd ein huchelgais yn cynnwys:<br>• y GIG a Heddlu Gogledd Cymru<br>• ysgolion a sefydliadau addysg uwch a phellach<br>• Newydd ac Aura (Modelau Darparu Amgen) |
| 2 | Dynodi cyfleoedd i gydweithio ar fentrau digidol er mwyn cael y mwyaf o’n data<br>• datblygu cysondeb drwy gytuno ar, a mabwysiadu safonau data a saernïaeth cyffredin a defnyddio platfformau a fydd yn cefnogi ailddefnyddio data a chydweithio’n fwy cyffredinol<br>• gweithio gyda phartneriaid i ddynodi ffynonellau o ddata a fydd yn gallu helpu i greu darlun cyfoethog a chynhwysol o gymdeithas i hysbysu datblygiad gwasanaethau a bwriadau comisiynu |
| 3 | Archwilio sut y gellir gwneud defnydd effeithiol o Sharepoint neu dechnoleg o fathau eraill i gefnogi gwaith partneriaeth a deilliannau ar yr un pryd â sicrhau cydymffurfiaeth â safonau llywodraethu data a gwybodaeth |
| 4 | Datblygu glasbrint ar gyfer gwasanaethau wedi’u cydleoli, a’r seilwaith cysylltiedig (e.e. teleffoni) i hwyluso gwaith partneriaeth a gwasanaethau di-dor ar gyfer dinasyddion. Bydd hyn yn cynnwys cydleoli gydag Iechyd, yr Heddlu a sefydliadau 3ydd sector |
| 5 | Hyrwyddo a chydweithio ar brosiectau rhanbarthol a chenedlaethol yn cynnwys:<br>• Cam 2 o System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan<br>• Disodli systemau cleientiaid gofal cymdeithasol ac ariannol<br>• Gwaith i symud at atebion digidol ar gyfer gwaith llys<br>• Systemau newydd ar gyfer ysgolion<br>• Caffael |

# Rheoli Gwybodaeth a Data

**Egwyddorion:**

- Bydd pobl a sefydliadau yn gwbl hyderus y bydd eu data'n cael ei drin yn gyfrifol, yn ddiogel ac yn foesegol, yn unol â'r ddeddfwriaeth Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion briodol a gan ddilyn arfer gorau'r diwydiant o ran Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch
- Byddwn yn darparu gwasanaeth gwell, di-dor gyda gwell deilliannau oherwydd bod data'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn arloesol
- Byddwn yn cyfyngu ar faint o weithiau y mae'n rhaid i bobl ddarparu'r un wybodaeth drwy ddatblygu gwell mapio data ar draws y Cyngor i gefnogi'r defnydd a'r ailddefnydd diogel o ddata er mwyn darparu gwasanaethau cydgysylltiedig
- Bydd ein data ar gael ar fformat hawdd ei ddefnyddio fel y gall pobl a sefydliadau eraill sydd ei hangen gael ati yn ôl yr angen
- Byddwn yn dylunio ffyrdd diogel a defnyddiol o rannu gwybodaeth er mwyn meithrin ffydd ein partneriaid a dinasyddion ynom, er mwyn cefnogi'n well aelodau mwyaf agored i niwed ein cymunedau ac i dargedu ein hadnoddau'n fwy effeithiol
- Byddwn yn trin gwybodaeth fel ased corfforaethol allweddol i gefnogi gwneud penderfyniadau gwell a'r defnydd gorau o adnoddau

*"Gallwn wella'r gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd drwy weithio gyda'n gilydd a sicrhau y defnyddir ein gwybodaeth a'n data'n effeithiol, mewn ffordd drefnus a diogel a'i bod yn cyrraedd y man lle mae ei hangen."*



*parhad...*

# Rheoli Gwybodaeth a Data

**Gweithredu ar Lefel Uchel i Gefnogi Darpariaeth:**

| Rhif | Cam Gweithredu |
|---|---|
| 1 | Datblygu Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data sy'n ystyried anghenion ein dinasyddion, galwadau busnesau, arfer gorau'r diwydiant a newidiadau mewn technoleg a deddfwriaeth |
| 2 | Sicrhau ein bod yn diwallu ein rhwymedigaethau deddfwriaethol a moesegol yn y modd yr ydym yn rheoli ein gwybodaeth, gan feithrin fydd ein dinasyddion a'n partneriaid ynom e.e.<br>• Deddfwriaeth Diogelu Data<br>• Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000<br>• Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004<br>• Achrediad y Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus (PSN)<br>• Achrediad Cyber Essentials |
| 3 | Lleihau baich corfforol ac ariannol storio gwybodaeth a data ar y cyngor wrth gynnal cydymffurfiaeth:<br>• Adolygu contractau i'w storio a'u dinistrio<br>• Adolygu rhannu ffeiliau corfforaethol fel rhan o fudo O365<br>• Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ailddefnyddio gwybodaeth<br>• Lleihau dyblygu gwybodaeth |
| 4 | Defnyddio technoleg i alluogi rheolaeth gwybodaeth a rhannu gwybodaeth mwy effeithiol o fewn y Cyngor a gyda phartneriaid:<br>• Rhoi SharePoint a'r technolegau cysylltiedig ar waith i gefnogi rheolaeth cofnodion a rhannu gwybodaeth gwell<br>• Datblygu fframwaith strategol ar gyfer rhannu gwybodaeth |
| 5 | Manteisio i'r eithaf ar y potensial y mae gwell rhannu gwybodaeth yn ei gynnig o ran gwella effeithlonrwydd busnes, cynllunio adnoddau a'r angen i leihau methiannau:<br>• Gwell safonau data<br>• Cyfnerthu ac integreiddio systemau<br>• Defnydd ehangach o fapio data i leihau dyblygiad<br>• Adolygu cylch bywyd gwybodaeth drwodd o'i chasglu i'w dinistrio neu ei harchifo<br>• Defnyddio technolegau gwybodaeth busnesi i gefnogi gwell prosesau gwneud penderfyniadau a chynllunio adnoddau<br>• Parhau i ddatblygu'r gallu i weld gwybodaeth cwsmer i gyd mewn un lle |
| 6 | Sicrhau bod tîm arweinyddiaeth y Cyngor, aelodau a swyddogion yn deall eu rhwymedigaethau cyfreithiol a chyfleoedd i wella darpariaeth gwasanaethau drwy reoli gwybodaeth yn well<br>• Adolygu, hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o bolisïau<br>• Hyfforddiant targedig a datblygu e-ddysgu ymhellach |

# Cyflawni Digidol

*"Mae Cyflawni Digidol yn galluogi darparu seilwaith a systemau TG gwydn, cadarn a chost effeithiol i ategu darpariaeth gwasanaeth a hwyluso newid sefydliadol."*

**Egwyddorion:**

- Byddwn yn darparu seilwaith a systemau TG dibynadwy, diogel a gwydn i sicrhau parhad darpariaeth gwasanaeth
- Sicrhau bod y buddsoddiad mewn technoleg yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau ar gyfer y sefydliad
- Cyflawni gwerth gorau o fuddsoddiadau a wnaed yn yr isadeiledd presennol drwy sicrhau cydymffurfiad ag arfer gorau'r diwydiant
- Harneisio technolegau newydd a rhai sy'n dechrau ymddangos lle gallant ddarparu mwy o effeithlonrwydd a gwell darpariaeth gwasanaeth
- Lleihau nifer y systemau busnes a gwella integreiddiad er mwyn safoni a symleiddio prosesau busnes

**Gweithredu ar Lefel Uchel i Gefnogi Darpariaeth:**

| Rhif | Cam Gweithredu |
|---|---|
| 1 | Datblygu a chynnal strategaethau Cwmwl a Chanolfan Ddata i ddiffinio polisi 'Y Cwmwl yn Gyntaf' y cyngor a hysbysu Cynllun Rhesymoli Asedau'r Cyngor |
| 2 | Uwchraddio'r seilwaith er mwyn sicrhau bod digon o gapasiti i gefnogi darpariaeth gwasanaeth |
| 3 | Gofalu bod meddalwedd y seilwaith yn gyfredol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth trwyddedau, darpariaeth seilwaith diogel a phlatfformau sy'n gallu rhedeg y cymwysiadau busnes diweddaraf |
| 4 | Rhoi technolegau'r cwmwl ar waith:<br>• Microsoft Office 365<br>• Microsoft Teams<br>• Microsoft SharePoint |
| 5 | Cefnogi gweithrediad systemau busnes newydd neu uwchraddedig |
| 6 | Cyfnerthu Systemau Busnes:<br>• Adolygu systemau busnes i sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau o fuddsoddiad mewn meddalwedd trydydd parti<br>• Rhesymoli systemau i weld a allwn ni leihau nifer y systemau busnes gyda'r posibilrwydd o wneud arbedion effeithlonrwydd o ostyngiad mewn trwyddedau a gorbenion rheoli systemau |
| 7 | Sicrhau bod gennym ddarlun clir o holl asedau TG corfforaethol, eu gwerth, y wybodaeth berthnasol am gontractau a thrwyddedau, gwarantau ac amserlenni disodli; bydd hyn yn cynorthwyo â chynllunio rheolaeth asedau ariannol |
| 8 | Cefnogi Rhaglen Rhesymoli Asedau'r Cyngor |
| 9 | Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy'r defnydd o dechnoleg |
| 10 | Cefnogi darpariaeth prosiectau o fewn ffrydiau gwaith eraill yn y Strategaeth Ddigidol drwy ddarpariaeth technoleg, systemau ac adnoddau |

# Cynhwysiant Digidol

*"Dod a'r Cyngor yn fwy agos at drigolion drwy roi'r ysgogiad, y mynediad, y sgiliau a'r hyder i bobl ymgysylltu â byd cynyddol ddigidol, yn seiliedig ar eu hanghenion."*



**Egwyddorion:**

- Byddwn yn hyrwyddo, yn cyflwyno ac yn datblygu technolegau digidol ar gyfer pobl mewn ffodd a fydd o fantais iddyn nhw; eu helpu nhw i wneud pethau sydd o bwys iddynt ac y gallant eu gwneud dim ond ar-lein
- Ei gwneud yn haws i'n trigolion aros yn ddiogel ar-lein drwy ddarparu cyngor a theclynnau clir a syml
- Gweithio gyda'n partneriaid i wneud y defnydd eithaf o arbenigedd, profiad ac adnoddau er mwyn diwallu anghenion y defnyddiwr yn well
- Cefnogi pobl i gael mynediad at gysylltedd ac offer priodol a fydd yn galluogi mynediad at wasanaethau digidol
- Byddwn yn dynodi deilliannau ehangach y gellir eu darparu drwy helpu pobl i fod yn annibynnol hyderus ar-lein.

**Gweithredu ar Lefel Uchel i Gefnogi Darpariaeth:**


| Rhif | Cam Gweithredu |
|---|---|
| 1 | Gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu a hyrwyddo rhaglen wirfoddoli i gefnogi pobl i fynd ar-lein |
| 2 | Cefnogi a galluogi mynediad i'r rhyngrwyd a dyfeisiadau er mwyn sicrhau nad yw pobl yn cael eu cau allan o'r byd digidol |
| 3 | Datblygu gwasanaethau digidol hygyrch ac ymatebol |
| 4 | Gweithio gyda'r 3ydd sector a phartneriaid eraill i nodi cyfleoedd i wella llythrennedd digidol o fewn cymunedau ac mewn busnesau bach |
| 5 | Hyrwyddo mentrau i helpu pobl i ddefnyddio technoleg ddigidol heddiw ac yn y dyfodol |
| 6 | Amlygu mentrau sy'n cefnogi iechyd a lles pobl drwy gyfranogiad mewn gweithgareddau digidol |

# Dysgu Digidol a Diwylliant

**Egwyddorion:**

- Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau eraill i hyrwyddo a datblygu cyfleoedd cynhwysol ar gyfer hygyrchedd, cyfranogiad a diwylliant digidol i dyfu cymunedau cynaliadwy
- Darparu'r seilwaith digidol a'r gwasanaethau mwyaf effeithiol ar gyfer darparwr addysg gan wreiddio technoleg yn y dosbarth
- Parhau i archwilio a datblygu sianelau digidol i ddarparu cyfleoedd dysgu ledled Sir y Fflint
- Gwella gallu a sgiliau digidol dysgwyr o bob oed drwy:
  - Weithio gydag ysgolion, partneriaid a'r gweithlu i sicrhau bod yr adnoddau cywir ganddynt i ddarparu cyfleoedd digidol fel rhan o gwricwlwm Cymru.
  - Cefnogi'r gofynion digidol esblygol mewn addysg oedolion fel rhan o 2030 Digidol

*"Rydym am i ddysgwyr o bob oed allu ymgysylltu â'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn ddinesydd digidol cydwybodol sy'n ymgysylltu â, ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at y byd digidol o'u hamgylch."*



**Gweithredu ar Lefel Uchel i Gefnogi Darpariaeth:**

| Rhif | Cam Gweithredu |
|---|---|
| 1 | Parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth ddigidol i ysgolion trwy fodel darparu gwasanaeth newydd y Cyngor ar gyfer cymorth TG mewn ysgolion |
| 2 | Gweithio mewn partneriaeth â GwE i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer ysgolion wrth ddarparu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol a gwreiddio hyn o fewn Cwricwlwm Cymru 2022 |
| 3 | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu a datblygu seilwaith TG ysgolion i alinio â'r safonau digidol a'r dyluniad cytunedig |
| 4 | Cefnogi ysgolion â'r gweithlu i wneud y defnydd eithaf o HWB, platfform dwyieithog lle ceir casgliad cenedlaethol o declynnau ac adnoddau i gefnogi addysg yng Nghymru |
| 5 | Gweithio gyda'r bartneriaeth addysg oedolion (Gogledd Ddwyrain Cymru) i ddynodi cyfleoedd i wella llythrennedd digidol mewn cymunedau |
| 6 | Darparu hyfforddiant proffesiynol parhaus ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid i sicrhau eu bod yn gallu manteisio'n llawn ar sianelau cyfathrebu modern a thechnoleg ddatblygol i gyfathrebu a gweithio gyda phobl ifanc |
| 7 | Creu canolbwynt cymunedol drwy Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWA) i wella hygyrchedd ac ymgysylltiad gyda phob sector o'r gymuned |

# Trefniadau Llywodraethu

**Y Bwrdd Strategaeth Digidol** sy'n gyfrifol am oruchwylio a sicrhau darpariaeth effeithiol Strategaeth Ddigidol y Cyngor. Bydd yn darparu mecanwaith i fonitro a gwerthuso cynnydd a datrys unrhyw broblemau o ran adnoddau, capasiti a blaenoriaethu a allent godi ar draws yr amrediad o flaenoriaethau a chamau gweithredu sydd i'w cyflawni.

- Bydd y Strategaeth Ddigidol yn cael ei chynnwys yng Nghynllun Gwella'r Cyngor felly bydd yn ofynnol i'r Bwrdd adrodd ar gynnydd drwy'r sianelau priodol.
- Bydd unrhyw geisiadau am adnoddau i ddarparu'r camau gweithredu sy'n cefnogi cyflawniad y strategaeth yn gorfod gael eu cymeradwyo a'u blaenoriaethu gan yr Uwch Dîm Rheol perthnasol cyn datblygu achos busnes i'w roi gerbron y Bwrdd.
- Bydd y Bwrdd yn defnyddio cyfres o feini prawf diffiniedig i asesu a blaenoriaethu achosion busnes, gan sicrhau eu bod wedi'u halinio â blaenoriaethau ac uchelgeisiau Strategaeth Ddigidol y Cyngor.
- Bydd y Bwrdd yn gyfrifol am amlygu a sicrhau derbyniad sefydliadol y risgiau sy'n gysylltiedig â phob blaenoriaeth a ddewiswyd a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli'n briodol trwy ddulliau lliniaru dynodedig.

**Darparu**

- Mae'r Bwrdd wedi'i lunio o nifer o gynrychiolwyr i gynnwys pob maes o fewn y sefydliad.
- Caiff pob thema flaenoriaeth o fewn y Strategaeth Ddigidol ei harwain gan Uwch Reolwr a fydd yn eistedd ar y bwrdd i adrodd ar gynnydd yn erbyn eu thema benodol hwy.
- Bydd y swyddogion arweiniol yn gyfrifol am helpu i flaenoriaethu gwaith a byddant yn cael eu cefnogi gan swyddogion a phartneriaid sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau priodol.
- Bydd y Cyngor yn cyhoeddi map ffordd ar gyfer y Strategaeth Ddigidol, gan ei ddiweddaru o dro i dro dan gyfarwyddyd yr Arweinwyr Thema i adlewyrchu cynnydd a chyflawniadau yn erbyn ei nodau
- Bydd tudalennau'r **Strategaeth Ddigidol** a **Blog Digidol y Cyngor** yn cael eu defnyddio i helpu i lywio a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar brosiectau a mentrau ar ôl bob Cyfarfod Bwrdd

